

Eglwys Sant Tegai, Llandygai



Adeiladwyd yr eglwys bresennol tua 1330, ond ychwanegwyd at gorff yr eglwys yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd eglwys wreiddiol y plwyf yn deillio o'r bumed ganrif, a sefydlwyd honno gan Sant Tegai neu Sant Cai a ddaeth i Gymru o Lydaw er mwyn atgyfnerthu'r ffydd yng Nghymru.



Yr Archesgob John Williams (John Iorc)

Ganwyd John Williams yng Nghonwy ym 1582, roedd ei dad yn fab i William Williams Cochwillan, ac ei fam yn ferch i William Griffith, Penrhyn. Roedd yn fyfyrwr a enillodd gradd MA, ac wedyn DD, yng Nghaergrawnt.

Roedd yn Gaplan i'r Brenin yn 1617, ac erbyn 1621 apwyntiwyd ef yn Ganghellor Lloegr a Cheidwad y Sel. Roedd erbyn rwan yn Ddeon Salisbury, Deon San Steffan ac wedyn yn Esgob Lincoln.

Pan ddaeth Siarl y Cyntaf yn Frenin, collodd ei swydd, a charcharwyd ef am dair blynedd, ond wedyn enillodd barch y brenin unwaith yn rhagor ac ordeiniwyd ef yn Archesgob Efrog.

Gyda chychwyn y Rhyfel Cartref yn 1642, amddiffynodd John Iorc gastell Conwy ar ran y brenin. Roedd ei helmed a'i sbardunnau ar un adeg wedi eu gosod wrth ymyl y gofgolofn.

Bu farw ym Mawrth 1650 ar ddiwrnod ei benblwydd. Roedd rhai o'i gefnofwyr yn teimlo nad oedd Eglwys Llandygai'n ddigon mawreddog ar gyfer cawr o ddyn fel yr Archesgob John Williams.



Cerfluniau Alabaster

Mae nifer o ysgolheigion yn dadlau os mai rhain yw'r cerfluniau cywir ar gyfer y teuluoedd arbennig. Roedd cryn ddryswch ar ol i Hari'r Wythfed ddidymu'r eglwysi a pheth amheuaeth os oedd y cerfluniau penodol yn dychwelyd i'r eglwysi cywir.

Pa rosyn sydd ar y cerflun?



Y Pulpud

Mae'r pulpud anghyffredin o lechen Chwarel y Penrhyn. Gosodwyd y pulpud er cof am Hugh Napier Douglas Pennant, yr Arglwydd Penrhyn.

Roedd y teulu'n gyfrifol am adeiladu dwy ysgol o fewn y pentref yn ogystal a thai ar gyfer gweithwyr y Stad.



Arch Garreg

Mae'r arch i'w gweld o dan goeden ywen. mae rhai yn honni mai arch Tegai yw hon, ond mae'n debyg o fod o gyfnod diweddarach (yr unfedganrif ar ddeg). Mae'n fychan iawn, ond mae'n rhaid cofio fod ein cyndadau'n llai o lawer na ni.